Dienyddio Ioan Fedyddiwr

Mathew 14: 1-12; Marc 6: 14-29

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Dienyddio Ioan Fedyddiwr: Mathew 14: 1-12; Marc 6: 14-29		
1	Roedd Herod Antipas, rheolwr Galilea a Perea, wedi priodi Phasaelis. Ond, ysgarodd ei wraig er mwyn priodi Herodias oedd yn wraig i Philip, ei hanner brawd.		
2	Roedd Herodias yn falch pan ysgarodd Herod ei wraig ei mwyn ei phriodi hi. Roedden nhw'n torri'r gyfraith Iddewig. Roedd Herod Antipas yn bwerus - doedd neb yn fodlon ei herio.		
3	Ond roedd Ioan Fedyddiwr yn ei feirniadu'n gyhoeddus. Dywedai fod priodas Herod a Herodias yn torri cyfraith Duw.		

4	Roedd Herodias yn gynddeiriog pan glywodd eiriau Ioan Fedyddiwr. Arestiodd Herod Ioan Fedyddiwr a'i roi yn y carchar. Roedd wedi gwneud hynny o achos ei berthynas â Herodias, gwraig ei frawd, Philip	
5	Taflwyd Ioan i garchar.	
6	Dyma Herod yn cwestiynu Ioan bopeth oedd e'n gredu.	
7	Esboniodd Ioan yr hyn yr oedd yn ei bregethu i Herod. Nid oedd Herod yn deall yr hyn oedd gan Ioan dan sylw.	
8	Er bod Herod eisiau lladd Ioan, roedd ganddo ofn gwneud hynny am fod y bobl yn ystyried Ioan yn broffwyd.	

9	Ond, roedd ei wraig newydd Herodias yn dal dig yn erbyn Ioan ac yn cynllwynio i'w ddienyddio.	
10	Gwelodd Herodias ei chyfle pan oedd Herod yn dathlu ei ben-blwydd. Roedd ei brif swyddogion, penaethiaid y fyddin a phobl bwysig Galilea i gyd wedi'u gwahodd i'r parti.	
11	Yn ystod y dathlu dyma ferch Herodias, Salome, yn perfformio dawns.	
12	Roedd hi wedi plesio Herod a'i westeion yn fawr.	
13	Roedd hi wedi plesio Herod gymaint fe ddywedodd wrthi, “Gofyn am unrhyw beth gen i, a bydda i'n ei roi i ti.” Rhoddodd ei air iddi ar lw, “Cei di beth bynnag rwyt ti eisiau, hyd yn oed hanner y deyrnas!”	

14	Aeth y ferch allan at ei mam, “Am beth wna i ofyn?”, meddai wrthi.	
15	“Gofyn iddo dorri pen Ioan Fedyddiwr,” meddai ei mam.	
16	Felly dyma hi yn brysio'n ôl i mewn at y brenin, gyda'i chais: “Dw i eisiau i ti dorri pen Ioan Fedyddiwr nawr, a'i roi i mi ar hambwrdd.”	
17	Doedd y brenin ddim yn hapus o gwbl – roedd yn hollol ddigalon. Ond am ei fod wedi addo ar lw o flaen ei westeion, doedd ganddo mo'r wyneb i'w gwrthod hi. Felly dyma fe'n anfon un o'i filwyr ar unwaith i ddienyddio Ioan.	
18	Felly aeth y milwr i'r carchar a thorri pen Ioan, dyn di-euog, i ffwrdd am sefyll i fynny i gyfraith Duw.	

19	Daeth yn ei ôl gyda'r pen ar hambwrdd a'i roi i'r ferch, ac aeth hithau ag e i'w mam.	
20	Pan glywodd disgyblion Ioan beth oedd wedi digwydd dyma nhw'n cymryd y corff a'i roi mewn bedd.	
21	Cyfiethiad www.beibl.net	Free Bible images THE WORD IN PICTURES www.freebibleimages.org
22	Mae mwy o sleidiau am Ioan Fedyddiwr i'w cael ar wefan beibl.net a www.freebibleimages.org	